

# GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC  
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

## Cynllun Busnes

2014-2016

Sian Elen Tomos  
Prif Weithredwr

1.0	Cyflwyniad	2
	Safonau Ansawdd	2
	Pobl ifanc yn 2013 +	3
2.0	Cyd destun lleol a chenedlaethol	5
	Crynodeb o Sefyllfa bresennol GISDA	6
3.0	Nod ac Amcanion	7
	Gwerthoedd	8
4.0	Bwrdd Rheoli	9
	Swyddfeydd	10
	Staff	11
	Hyfforddiant i staff	12
	Cynllun iechyd i staff	13
5.0	Gwasanethau	13
6.0	Polisiau	21
	Dangosyddion Perfformiad	21
	Marchnata	22
	Delwedd a Gofal Cwsmer	23
7.0	Incwm	24
	Cronfeydd Cyfyngedig ac anghyfyngedig	27
8.0	GISDA – y Dyfodol	27
	Rhaglen waith a blaenoriaethau dros y 3 blynedd nesaf.	28

## 1.0 Cyflwyniad

Sefydlwyd GISDA yn 1986 pan ddaeth criw o wirfoddolwyr yn ardal Caernarfon at ei gilydd yn dilyn adnabod y broblem o ddiffyg adnoddau a llety ar gyfer pobl ifanc yr ardal a fu'n gyfrifol am ddyfodiad GISDA a mawr ddiolch sydd iddynt am eu brwdfrydedd, gweledigaeth a'u dyfalbarhad. Hyd heddiw prif ffocws y gwasanaeth yw pobl ifanc sydd rhwng 16 a 25 sydd naill ai yn ddigartref, ar fin dod yn ddigartref neu sydd angen cefnogaeth i gadw eu tenantiaeth. Yn ychwanegol at bobl ifanc bregus, bûm yn ffodus o ennill rhan o fewn dau dendr dan gynllun Teuluoedd yn Gyntaf Cyngor Gwynedd yn 2013. Golygai hyn bod y ddau brosiect dan sylw yn cynnig gwasanaeth i deuluoedd Gwynedd a all fod yn oedolion hŷn na 25 oed. Rydym hefyd wedi ennill grant loteri a fydd yn darparu gwasanaeth i rieni ifanc 14 i 16 oed - bydd rhagor o wybodaeth am hyn isod. Am y tro cyntaf hefyd mae gennym brosiect sydd yn gweithredu oddi allan i Wuned ym Môn, Dinbych a Chonwy. Enw'r prosiect hwnnw yw Symud Ymlaen ac mae'n cefnogi pobl ifanc 16-17 oed sydd wedi troseddu neu bod mewn gofal i geisio dod o hyd i waith neu hyfforddiant.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2012-2013) cefnogwyd 270 o bobl ifanc gan gynnwys 50 o bobl ifanc ôl ofal. Rydym yn parhau i is lesu ein heiddo gan Tai Eryri a Tai Clwyd. Rydym hefyd mewn trafodaethau gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd ynglŷn ag is lesu 6 uned yng Nghaernarfon. Rydym yn gobeithio bydd hyn wedi cael ei drosgwlyddo erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf (2014-2015).

Gwynedd yw ein prif ardal weithredol gyda'n prif swyddfa weinyddol wedi'i leoli yng Nghaernarfon. Mae amryw o swyddfeydd llai yng Nghaernarfon a hefyd swyddfa ym Mlaenau Ffestiniog. Ar ddechrau 2014 rydym yn cyflogi 40 o staff i gyd.

### Safonau Ansawdd

- ✓ Rydym yn falch o nodi ein bod wedi llwyddo i gael Dyfarniad Buddsoddwyr Mewn Pobl yn dilyn adolygiad ym Mawrth 2012.

- ✓ Rydym hefyd wedi bod yn llwyddiannus i gael dyfarniad ‘CLYWED’ sydd yn datgan ein bod wedi cyrraedd y safon o wrando ar bobl ifanc a’u clywed.
- ✓ Derbyniom gydnabyddiaeth lefel 2 o ddyfarniad Draig Werdd ym mis Ebrill 2013. Roedd rhaid i’n polisi amgylcheddol adlewyrchu ein hymrwymiad fel cwmni at yr amgylchedd - rydym yn awyddus i weithredu hyn a sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi ar ymarfer da ar faterion yn ymwneud â’r amgylchedd.
- ✓ Eto ym mis Ebrill 2013, derbyniom safon genedlaethol ‘Cyflogwr Ystyriol’ (Mindful Employer) sydd yn cadarnhau ein hymrwymiad fel cyflogwr tuag at staff sydd yn dioddef o gyflwr iechyd meddwl.
- ✓ Yn ystod y flwyddyn nesaf rydym yn bwriadu edrych ar ein safonau gwasanaeth gan sicrhau bod ein fframwaith monitro ansawdd yn gyfredol ac yn ddull sydd yn ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn adolygu ein prosesau yn rheolaidd i gadw at ein gwasanaethau o safon uchel.
- ✓ Rydym hefyd yn anelu i gael marc HSSF sydd yn nodi ein hymroddiad tuag at deuluoedd.

Bydd y Cynllun Busnes hwn yn arwain y tîm Rheoli ac yn amlinellu cyfeiriad GISDA dros y tair blynedd nesaf gan adnabod y blaenoriaethau. Serch hyn mae ansicrwydd fwy nag erioed i elusen gymharol fach fel GISDA o ran incwm a grantiau ac ati felly gall y cynllun hwn newid petai’r sefyllfa ariannol newid yn sylweddol.

### **1.1 Pobl ifanc yn 2014 +**

Mae staff wedi datblygu sgiliau arbennig o weithio gyda rhai o bobl ifanc mwyaf bregus ein cymdeithas. Ein nod yw gallu cynnig amrywiaeth o wasanaethau ond yn fwy na hynny gwasanaeth sydd wedi’i deilwro ar gyfer yr unigolyn lle bynnag y mae’n byw gan geisio’i gyfeirio ar hyd y trywydd cywir i’w gynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl. Cyfeirir rhai pobl ifanc atom sydd angen cyngor tymor byr yn unig ond eraill angen cefnogaeth am flynyddoedd. Ni fyddem yn dod ag unrhyw wasanaeth i ben oni bai ein bod mewn cytundeb gyda’r person ifanc eu bod yn barod i derfynu’r gwasanaeth.

Mae'r hinsawdd economaidd wedi effeithio cenhedlaeth o bobl ifanc yn gyffredinol ond i bobl ifanc sydd yn fregus a heb gefnogaeth teulu mae'r sefyllfa yn waeth. Gyda sawl cynllun gwaith y Llywodraeth wedi methu, diffyg twf yn yr economi, diweithdra ymysg yr ifanc yr uchaf a fu erioed a diffyg cyfleoedd yn gyffredinol mae'n sefyllfa argyfyngus iawn. Mae'r sefyllfa yn debyg iawn ar hyd a lled y wlad ac yn wir drosodd i'r cyfandir yn Ewrop. Mae diweithdra yn cael effaith ar iechyd meddwl pobl ifanc ac yn aml mae perygl iddynt droi tuag at ffyrdd o ddianc oddi wrth eu problemau. Yn ychwanegol at hyn mae newidiadau a thoriadau ym mudd-daliadau am effeithio pobl ifanc mewn sawl ffordd. Mae'r ffordd y bydd budd-dal tai yn cael ei dalu i gwmnïau fel GISDA yn newid a fydd yn y pendraw yn effeithio pobl ifanc.

Rydym yn bryderus iawn fel cwmni ynglŷn â'r modd mae rhai pobl ifanc yn cael eu trin a'u heffeithio os ydynt yn cael eu gwahardd rhag derbyn budd daliadau. Bu nifer fawr o enghreifftiau pryderus iawn yn ail hanner 2013.

Cadarnhaodd y Banc yn Lloegr mis Awst 2013 eu bod am gadw cyfraddau llog eto'r un peth ar 0.5%. Nodwyd na fyddant yn codi'r cyfraddau nes bydd nifer sydd yn ddi-waith wedi disgyn o dan 7%. Gwelwyd ym mis Rhagfyr 2013 bod y canran o bobl di waith wedi disgyn i 7.4% sef y gyfradd isaf ers Ebrill 2009. Mae Banc Lloegr yn rhagweld twf o 2.8% yn yr economi yn 2014. Mae'r gyfradd chwyddiant ar ei isaf ers 4 blynedd hefyd ar 2.1% ond rhagwelir y gall hyn godi wrth i ni weld pris tanwydd yn codi bob mis. Mae lefel dyledion y wlad yn parhau i fod yn uwch nag erioed. Mae pryder bod nifer fawr o bobl mewn swyddi anaddas, rhan amser neu gyflogau isel iawn - mae'r cyfan yn cyfrannu tuag at fwy o fenthylg arian a mwy o ddyledion a thlodi. Er bod y cyfryngau yn adrodd bod yr economi yn gwella ac er bod adroddiadau bod prisiau tai yn codi, mae'n anodd iawn gweld effaith gadarnhaol mewn ardal wledig yng Nghymru.

Mae pobl ifanc sydd ar fudd-dal chwilio am waith yn derbyn £56.00 yr wythnos ac o hynny maent angen talu am ddŵr, trydan, tanwydd, dillad, bwyd ac offer hylendid personol. Mae hi'n amser anodd iawn i fod yn berson ifanc digartref ac yn ddi-waith.

Er bod sefyllfa bersonol rhai pobl ifanc yn anodd iawn, rydym yn ymdrechu i geisio gwneud eu bywyd yn haws a cheisio'u cynorthwyo i fod yn uchelgeisiol.

Rydym yn GISDA yn brofiadol iawn ac yn ymwybodol iawn o faterion sydd yn effeithio ein pobl ifanc yn ddyddiol, rydym yn adnabod eu hanghenion ac yn addasu yn ôl yr angen i ymateb i'w galw.

Dros y blynyddoedd rydym wedi meithrin amryw o rwydweithiau fel y gallwn weithio mewn modd amlasiantaethol ac integredig i sicrhau bod y person ifanc o hyd yn ganolog..

**Pobl ifanc yw canolbwynt GISDA a mawr werthfawrogwn eu barn a'u cyfranogiad bob amser. Rydym wir yn credu y gall unrhyw un droi eu bywyd i fod yn un cadarnhaol a gall unrhyw un gyrraedd unrhyw le gyda'r cymorth a chyngor cywir.**

## **2.0 Cyd-destun lleol a chenedlaethol**

Mae'r Ceidwadwyr wedi ffurfio clymblaid gyda'r Rhyddfrydwyr yn y senedd yn Llundain ac yn rheoli'r Deyrnas Unedig. Llafur sydd yn arwain yn y Cynulliad ac yn arwain yng Nghymru. Yn gyffredinol mae 2013 yn flwyddyn anodd gan fod dyled y Wlad yn anferthol a chostau byw wedi codi gyda'r gyfradd llog ar ei isaf.

Dengys adroddiad the Resolution Foundation bod gwahaniaeth o 32,000 o swyddi ers cyfnod cyn y dirwasgiad yn 2008. Byddai'n rhaid felly i Gymru greu 32,000 o swyddi newydd. Yr unig le ym Mhrydain sydd yn agos at gloi'r 'bwlch' yma yw Llundain.

Y sefyllfa wleidyddol yn lleol yng Ngwynedd yw bod trefniadau llywodraethu wedi setlo gyda chabinet newydd yn eu lle ers Haf 2012.

## 2.1 Crynodeb o sefyllfa GISDA

Mae hi'n gyfnod anoddach nag erioed i gynnal elusen o faint bychan fel GISDA ac fe welir llawer mwy o gydweithio ac yn wir uno mewn rhai achosion. Mae newid yn y ffordd mae gwaith yn cael ei gomisiynu gyda chostau a ganiateir ar gyfer rheoli a chostau gorbenion yn lleihau yn sylweddol. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 2013, cawsom doriad o 4% yn y grant Cefnogi Pobl. Roedd rhaid dod o hyd i swm o £29,000 i gwrdd â hyn ac fe wnaethpwyd hynny drwy beidio ail hysbysebu swydd Pennaeth Gwasanaeth a ddaeth yn wag ym mis Ionawr 2013. Rydym hefyd wedi cael cadarnhad y byddem yn derbyn 2% o doriad yn 2014 ond mae hyn yn llai o doriad nag oeddem wedi'i ragweld.

Mae tîm Rheoli GISDA wedi defnyddio'r flwyddyn 2013-2014 ar gyfer ail gynllunio gwasanaethau i sicrhau ein bod yn cwrdd gyda gofynion comisiynwyr a bod ein strwythurau canolog yn gryf a chadarn i ddygymod â newid a datblygiadau o fewn y cwmni. Roedd rhaid ail edrych ar ein strwythur yn dilyn toriadau ariannol ond y gobaith yw y bydd y strwythur newydd yn gweithio'n well ym mis Ebrill 2014. Mae'r ffocws yn gyffredinol boed o'r cynulliad, grantiau Ewrop a Chyngor Lleol ar gomisiynu llai o asiantaethau ac yna is gomisiynu i elusennau eraill mewn rhai achosion. Nod GISDA yw sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth a gynigir yr un mor safonol gan gynnal yr un lefel o wasanaeth. Mae symud tuag at weithio yn rhanbarthol yng Nghymru ac mae trafodaethau ymysg Awdurdodau Lleol i uno. Disgwylir cyhoeddiad ym mis Ionawr 2014 gyda datganiad gan y Llywodraeth o ran yr arweiniad at wasanaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw newid yn cael effaith ar GISDA.

Mae her anferthol yn wynebu cyrff mawr cyhoeddus i geisio dod o hyd i doriadau enfawr. Bydd hyn yn anorfod yn golygu nifer o swyddi yn cael eu colli ond hefyd bydd siâp gwasanaethau cyhoeddus yn edrych yn wahanol. Bydd GISDA yn edrych am gyfleoedd newydd i ddarparu gwasanaethau lle bynnag y bo hynny'n addas ac yn bosibl.

## 3.0 Nod ac Amcanion GISDA

## Nod

Cynnig cyfleoedd a sgiliau byw drwy ddarparu ystod eang o brofiadau i godi hyder, gwydnwch a sgiliau pobl ifanc.

Nod GISDA yw sicrhau cyfle i bobl ifanc bregus i wella ansawdd eu bywydau fel eu bod yn rhydd o unrhyw anfantais.

## Amcanion

- Hybu a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bobl ifanc i roi'r cyfle iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas y maent yn byw ynddi.
- Cynnig ac ehangu gwasanaethau i ymateb i ofynion ac anghenion ein rhanddeiliaid
- Hwyluso mynediad at wasanaethau cefnogol sy'n cyfrannu at addysg, iechyd, lles a datblygiad yr unigolyn
- Hwrwyddo dealltwriaeth o anghenion yr unigolion oddi fewn i'w cymuned
- Datblygu a chynnal perthynas gweithio gyda phartneriaethau ag asiantaethau eraill er mwyn ymestyn yr ystod o wasanaethau cefnogol
- Datblygu gweithlu proffesiynol a chymwysedig
- Sicrhau adnoddau ariannol i gynnal a datblygu gwasanaethau
- Ymgynghori gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth ar faterion sydd efallai yn gallu effeithio arnynt



### 3.1 Gwerthoedd

Mae GISDA yn credu mewn pobl ifanc, waeth beth fo’u hamgylchiadau, eu rhyw, eu hil, eu hanabledd na’u hymddygiad. Credwn mewn pobl ifanc sydd wedi eu cam-drin, pobl ifanc bregus a phobl ifanc heb gefnogaeth teulu. Byddwn yn eu cefnogi, yn sefyll yn gadarn drostynt ac yn ceisio sicrhau bob cyfle fel y gallant gyrraedd eu potensial mewn bywyd, Rydym yn gwneud hyn am ein bod yn credu mewn pobl ifanc. Ein nod yw gwella ansawdd bywyd a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein cymdeithas.

- **Gonestrwydd**

Rydym yn darparu gwasanaeth gonest a diffuant i bobol ifanc bob amser.

- **Parch**

Rydym yn parchu’r unigolyn, parchu ei deimladau, credo a’i hawliau

- **Gwranddo a Chlywed**

Rydym yn ymrwmo i wrando a chlywed ar lais y person ifanc gan gymryd pob cam posibl i eirioli ar ei ran. Byddwn yn cymryd pob cam posibl i ymateb i lais y person ifanc a cheisio cwrdd ag unrhyw angen os yn bosibl.

- **Hyrwyddo Cyfle Cyfartal a pharchu amrywiaeth**

Mae GISDA yn parchu unrhyw wahaniaeth ymysg staff, gwirfoddolwyr a’r defnyddwyr gwasanaeth ac yn parchu’r amrywiaeth. Wrth benodi staff newydd, dyrchafu staff presennol, derbyn cyfeiriad newydd fe sicrhawn bob amser na fyddem yn gwahaniaethu ar sail hil, lliw, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd, anabledd, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, cefndir troseddu amherthnasol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, statws economaidd na gwerthoedd gwleidyddol.

- **Ymbweru a Galluogi**

Byddwn yn ymrwmo i sicrhau bod pob defnyddwyr gwasanaeth yn cael y cyfle i ennill y sgiliau angenrheidiol i'w ymbweru a'u galluogi i fyw bywyd annibynnol. Ein nod yw cynyddu gwydnwch a hyder pobl ifanc i sicrhau eu bod wedi'u harfogi gyda'r strategaethau i ymdopi gyda heriau bywyd.

Yn ychwanegol i'r uchod mae pob aelod o staff yn ymrwmo at werthoedd y côd ymarfer Cyngor Gofal Cymru.

Rydym hefyd fel cwmni yn awyddus i fod mor gyfeillgar â phosibl tuag at yr amgylchedd. Mae gennym gôd ymarfer sydd yn nodi ein ymrwymedigaeth tuag at hyn.

#### 4.0 Bwrdd Rheoli

<b>Cyng. Tudor Owen</b>	<b>Cadeirydd</b>
<b>Mr John Hughes Jones</b>	<b>Is-gadeirydd – cefndir addysg</b>
<b>Meinir Angharad Hughes</b>	<b>Cefndir Gwasanaethau Cymdeithasol</b>
<b>Mr Dewi Jones</b>	<b>Cefndir Cyllid a systemau data</b>
<b>Mr Alan Parry</b>	<b>Cyfarwyddwr Marchnata Prifysgol Bangor</b>
<b>Parch. Ronald Williams</b>	<b>Diddordeb yn GISDA ac aelod ers y dechrau</b>
<b>Cyng. Bryan Jones</b>	<b>Cynrychioli Cyngor Gwynedd</b>
<b>Dr. Vanessa Poeppinghaus</b>	<b>Cefndir iechyd – Ymgynghorydd yn Ysbyty Gwynedd, Bangor</b>

#### 4.1 Swyddfeydd

Mae Tŷ Rhydalun, Penrallt Uchaf, Caernarfon yn parhau i fod yn brif swyddfa. Yma mae holl weinyddiaeth y cwmni yn cymryd lle yn cynnwys, cyfeiriadau, cyllid, marchnata a rheolaeth y cwmni. Yn ogystal mae Gwasanaeth Agor Drysau wedi'i lleoli ar y llawr uchaf.

Mae gweithwyr allweddol prosiect y gogledd i gyd wedi'u lleoli yn yr hostel, Hafan. Nid yw mynediad i'r gwasanaeth yn dda o ran adeilad yn arbennig i rieni ifanc gyda coetsys neu fynediad i rywun gydag anabledd corfforol. Ni all y gweithwyr allweddol weld defnyddwyr gwasanaeth o brosiectau cymorth symudol yma chwaith. Ar hyn o bryd maent yn cael cyfarfodydd gyda phobl ifanc naill ai mewn caffis, yn eu tai neu drwy logi ystafelloedd ar wahân. Nid yw hyn yn ddelfrydol ond mae staff yn teimlo bod cael eu lleoli yn yr hostel yn gynllun da gan nad oes rhaid teithio gymaint ag hefyd mae lefel y gefnogaeth yn uwch a gall staff gefnogi ei gilydd os oes materion mawr yn codi ymysg yr 8 person ifanc yn yr hostel.

Mae Staff Prosiect De Gwynedd wedi'u lleoli uwchben asiant gwerthu tai ar Brif Stryd Blaenau Ffestiniog. Eto, mae'r un materion yma megis grisiau ond mae'r swyddfa yma hefyd yn fach iawn ac mae'n anodd iawn cael preifatrwydd gyda phobol ifanc.

Nid yw'r un o'r swyddfeydd yn gwbl addas oherwydd cyfuniad o wahanol resymau.

Rydym wedi paratoi cynllun busnes arall sydd yn rhoi rhagor o fanylion ar ein cynllun swyddfeydd. Ein bwriad yw adnabod adeilad fforddiadwy yng Nghaernarfon a fyddai'n gallu gweithredu fel canolfan integredig i bobl ifanc gyda staff rheng flaen y cwmni wedi'u lleoli ar yr un safle. O ran y ganolfan, rydym yn awyddus i geisio denu arian i ariannu man i ddatblygu sgiliau pobl ifanc ond yn ddelfrydol o fewn yr un adeilad a staff rheng flaen. Rydym wedi amlinellu o fewn ein cynllun rhai o nodweddion fyddai'n rhaid i unrhyw safle newydd feddu arno, gweler isod:

- Canol Tref Caernarfon
- Mynediad llawr gwaelod
- Agos i safle bws
- Cwrdd â gofynion y gyfraith o ran priodoledd i bobl anabl
- Man i ollwng nwyddau – deliveries etc
- Parcio (yn ddelfrydol)
- Awyddus iawn iawn i godi proffil Gisda felly man amlwg yng Nghanol y Dref yn hanfodol
- Man lle sydd yn agos i gomisiynwyr ddod i'n gweld
- Man hawdd i bobl ifanc ein cyrraedd
- Man gyda'r potensial i fod yn ffenestr siop yn y tymor hir fel pan fyddem yn datblygu Menter Gymdeithasol bod gennym fan hawdd i rywun ddod mewn i brynu nwyddau
- dau fynediad - un cyhoeddus ac un llai amlwg i staff a phobl ifanc sy'n dymuno preifatrwydd

Gwnaethom waith pellach ar hyn pan adnabuwyd canolfan oedd ar y farchnad ag oedd yn cwrdd gyda'r uchod ond yn anffodus nid yw'r ganolfan ar werth mwyach. Felly mae gennym gynllun clir o ran beth yw ein hanghenion swyddfa ond rydym angen adnabod adeilad addas ond hefyd gwneud rhagor o waith ar adnabod ffynonellau cyllido.

Rydym yn rhan o gonsortia Places of Change Cymru / Llefydd o'r Newydd Cymru a bwriad y cynllun hwn yw denu arian Ewrop i ddatblygu sgiliau, gwaith a chyfleoedd i bobl fregus yn y siroedd cydgyfeiriant. Rydym yn gobeithio gwneud gwaith pellach gan obeithio y gallwn ddenu arian cyfalaf a refeniw Ewrop a all weithio ar y cyd gyda chynlluniau presennol GISDA i'w hatgyfnerthu.

## 4.2 Staff

Staff yw prif adnodd GISDA. Mae 41 o staff sydd yn cynnig amrywiaeth eang o brofiadau a sgiliau. Mae'r Prif Weithredwr a'r Penaethiaid Gwasanaeth wedi'u lleoli yn Nhŷ Rhydalun ac fe leolir y Rheolwyr gyda'r timau.

1 Prif Weithredwr (LL/A)
2 Bennaeth Adran (LL/A)
5 Rheolwr (LL/A)
2 Uwch Weithiwr Allweddol (LL/A)
11 Gweithiwr Allweddol (7 LL/A a 3 RH/A)
2 Gweithiwr Cysgu Mewn
2 Weithiwr Prosiect (2 x 37awr)
1 Mentor Cyfoed (LL/A) – Cynllun Twf Swyddi Gwaith Cymru
1 Swyddog Datblygu (LL/A)
1 Derbynnnydd (LL/A)
1 Swyddog Cyllid (LL/A)
1 Swyddog Cyfeiriadau (LL/A)
1 Swyddog Cymodi (RH/A)
1 Cynghorydd Personol (RH/A)
1 Cwnselydd (RH/A)
2 Swyddog Prosiect Ar y Blaen (LL/A)
3 Cefnogwr Teulu Rhieni Ifanc Ni (Dechrau Ionawr 2014) (2 x LL/A a 1 x RH/A)
3 Mentor Cyfoed Rhieni Ifanc Ni (Dechrau Ionawr 2014) (3 x Rh/A)

### 4.3 Hyfforddiant i Staff

Mae rhaglen hyfforddiant manwl iawn yn GISDA a hyd yma mae pob aelod o staff wedi cael y cyfle i ennill y cymhwyster angenrheidiol i gyflawni eu swydd. Yn ychwanegol i hyn mae hyfforddiant craidd megis iechyd a diogelwch, amddiffyn plant, cymorth cyntaf ar gael yn rheolaidd.

Rydym wedi buddsoddi yn y rhaglen DYFODOL sydd yn caniatáu mynediad at nifer fawr o hyfforddiant drwy goleg Llandrillo a Choleg Menai sydd bellach yn un sefydliad. Rhaglen wedi derbyn cymhorthdal gan grant Ewrop ydyw er mwyn hybu hyfforddiant ymysg gweithlu yng Nghymru.

Rydym yn y broses o ail lunio ein rhaglen hyfforddiant 3 blynedd ac edrych ar ffyrdd mwy effeithiol o ddarparu rhai hyfforddiant. Bydd mwy o glirdeb yn ogystal ynghylch telerau derbyn hyfforddiant i sicrhau bod ein polisiau yn glir ac yn gywir.

#### 4.4 Cynllun Iechyd i Staff

Rydym wedi buddsoddi mewn cynllun iechyd ar gyfer bob aelod o staff GISDA gan gwmni 'Simplyhealth'. Gall staff hawlio arian am eu costau deintyddol, optegol, ffisiotherapi a sawl triniaeth arall. Gall staff hefyd hawlio costau aros mewn ysbyty ac mae opsiwn i ychwanegu partneriaid a phlant pe dymunent.

#### 5.0 Gwasanaethau

##### Prosiectau Gweithwyr Allweddol

Mae dau brosiect wedi'u lleoli ym Mlaenau Ffestiniog ac yng Nghaernarfon lle mae gwasanaeth craidd GISDA yn darparu gwasanaeth 1:1 i bobl ifanc. Byddem yn symud tuag at 1 prosiect sirol ym mis Ebrill 2014.

Mae dwy ffrwd o fewn y gwasanaethau, 1 lle cefnogir pobl ifanc sengl a theuluoedd ar faterion yn ymwneud a thai o fewn unedau GISDA a gwasanaeth cefnogi i bobl ifanc lle nad ydynt yn preswyllo o fewn unedau GISDA.

Dyma'r eiddo rydym yn rheoli ar ran Tai Eryri a Thai Clwyd :

Enw	Perchennog yr eiddo	Math o lety
Hafan, Caernarfon	Tai Eryri	Hostel i 8 person ifanc sengl
Llys Meddyg, Blaenau Ffestiniog	Tai Eryri	Hostel i 4 person sengl

<b>Fron Fawr, Blaenau Ffestiniog</b>	<b>Tai Eryri</b>	<b>Hostel i 4</b>
<b>Wenallt, Dolgellau</b>	<b>Tai Clwyd</b>	<b>2 fflat</b>
<b>Ffordd y Felin, Dolgellau</b>	<b>Tai Clwyd</b>	<b>2 fflat</b>
<b>1 Llwyn Hyfryd, Llanrug</b>	<b>Tai Eryri</b>	<b>Hostel Rhiant Sengl- 1 teulu</b>
<b>1 Maes Elim, Felinheli</b>	<b>Tai Eryri</b>	<b>Hostel Rhiant Sengl- 1 teulu</b>
<b>Cae Llwybr, Caernarfon</b>	<b>Tai Eryri</b>	<b>1 teulu</b>
<b>Glynllifon, Blaenau Ffestiniog</b>	<b>Tai Eryri</b>	<b>1 teulu</b>
	<b>CYFANSWM</b>	<b>24 uned</b>

Yn ychwanegol i'r 24 uned uchod, rydym yn darparu gwasanaeth cefnogol i 32 person ifanc neu deulu. Mae sefyllfa ac amgylchiadau'r 32 yma yn amrywio :

- Gall y 32 yma fod yn byw gartref gyda'u rhieni ac angen cefnogaeth i gael llety eu hunain neu leoliad cartref ar fin torri lawr.
- Lleoliad cartref neu denantiaeth wedi torri lawr ac yn aros mewn llety anaddas h.y. yn ddigartref yn ôl y gyfraith.
- Tenantiaeth ar fin torri lawr ac angen cefnogaeth i barhau
- Trais yn y Cartref – angen cefnogaeth i chwilio am lety arall
- Wedi gadael gofal – ddim yn dymuno cefnogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol bellach ac yn chwilio am lety eu hunain
- Wedi bod mewn carchar
- Anghenion dwys a chymhleth

Mae'r gweithwyr allweddol yn darparu gwasanaeth 1:1 ac yn dysgu sgiliau i fyw yn annibynnol drwy ddefnyddio'r system SEREN sef offeryn sydd yn mesur llwyddiant person ifanc i weld ym mha ffordd y gallwn eu cefnogi i ddatblygu eu hunain. Mae'n offeryn defnyddiol iawn a dyma'r penawdau rydym yn eu defnyddio :

- ❖ Iechyd a Lles Emosiynol
- ❖ Materion Moesol ac Emosiynol
- ❖ Sgiliau Byw
- ❖ Sgiliau Magu Plant
- ❖ Llety a Thenantiaeth
- ❖ Datblygiad Personol

Mae'r gweithwyr allweddol yn gyfrifol am fewnbynnu gwybodaeth i'n system SPRINT a fydd yn casglu data pwysig o ran amser a dreuliyd gyda'r bobol ifanc ac ati a chofnod o unrhyw weithgaredd fel tystiolaeth. Mae llawer o waith wedi'u wneud er mwyn sicrhau bod y system wedi'i deilwro ar gyfer dibenion gwaith GISDA a'r nod yw gallu rhedeg adroddiadau angenrheidiol ar gyfer ein comisiynwyr.

Mae'r prif wasanaethau uchod i gyd yn cael eu hariannu gan grant Cefnogi Pobl. Grant yw hwn ar gyfer gwasanaethau sydd ddim o reidrwydd yn statudol ond ar gyfer pobl fregus ein cymdeithas sydd angen cefnogaeth.

Fe ddiddymwyd yr angen ar gyfer mesur ein gwasanaethau ar sail oriau yn ystod yr Hydref 2012. Roedd hyn yn ffordd i ni sicrhau mwy o hyblygrwydd yn y ffordd oeddem yn darparu gwasanaethau. Yn ystod 2013-2014 rydym yn mynd i gyflwyno strwythur newydd a fydd yn gyd fynd gyda chanllawiau Cefnogi Pobl a gyhoeddwyd ym Mehefin 2013. Mae'r categorïau gwasanaeth wedi newid ac felly mae'n hanfodol bod GISDA yn addasu. Hefyd, derbyniodd GISDA adolygiad cefnogi pobl bositif iawn ar ddechrau'r flwyddyn 2013 ond nodwyd bod angen symleiddio ein prosiectau. Ar hyn o bryd mae gennym 8 prosiect yn cael ei ariannu gan Gefnogi Pobl. Y 4 categori o fewn y canllawiau yr ydym yn anelu i deilwro'r prosiectau o'u cwmpas yw :



- Pobl ifanc 16-25
- Rhieni sengl
- Teuluoedd bregus
- Cefnogaeth symudol

Wrth ail greu ein cynlluniau, byddem yn adnabod anghenion pobl ifanc o ran y nifer ydym yn eu cefnogi gydag anghenion isel, canolig ac uchel a gweld beth sydd gennym yn ddarpariaeth o ran llety o’u cwmpas ac yn clustnodi prosiect ar sail angen ar gyfer pob aelod o staff. Bydd yr 8 prosiect presennol yn symud i fod yn 4 prosiect ym mis Ebrill 2014.

<p><b>Hostel Mynediad Uniongyrchol (gwasanaeth argyfwng / arhosiad byr – cefnogaeth anghenion uchel)</b>  <b>Direct Access Hostel (emergency / short stay – high support needs)</b></p> <p>Hafan, Caernarfon          Llys Meddyg, Bl. Ffestiniog</p>	<p>8 4</p>
<p><b>Unedau Gwasgarog / Dispersed Units</b>  <b>2 uned angen uchel; 12 uned angen canolig</b></p> <p>a) Rhiant Sengl          b) Fron Fawr, Bl. Ffestiniog          c) Tre Gof, Caernarfon (single site new development)</p>	<p>4 4 6</p>
<p><b>Tai Rhannu / Shared Housing</b>  <b>2 uned angen uchel; 2 uned angen canolig</b></p> <p>a) Y Wenallt, Dolgellau          b) Ffordd y Felin, Dolgellau</p>	<p>2 2</p>
<p><b>Cefnogaeth Symudol / Floating Support</b>  <b>12 uned angen uchel; 12 uned angen canolig; 8 uned angen isel.</b></p> <p>Yn cynnwys 32 o unedau yn rhoi gwasanaeth i:</p> <p>a) Rhiant Sengl          b) Symud Ymlaen Sengl          c) Cynllun Cyngor</p>	<p>32</p>

Yn ychwanegol at hyn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd i gael 6 fflat Symud Ymlaen yng Nghaernarfon. Golyga hyn y gallwn ddarparu cefnogaeth lefel uwch yn ein hostel yn Hafan, Caernarfon ac yna pan fydd y bobl ifanc wedi dysgu sgiliau byw yn annibynnol gallwn eu symud i eiddo lle bydd llai o gefnogaeth gyda'r gobaith y gallent mewn amser gael tenantiaeth eu hunain. Bydd y fflatiau Symud Ymlaen yma ar gael i ni symud i mewn ar y 1af o Ebrill 2014.

### **Agor Drysau**

Derbyniwyd grant o £289,000 gan y Gronfa Loteri fawr yn 2011 i redeg cynllun dros 3 blynedd. Cynllun sydd yn canolbwyntio ar roi cyfleoedd amrywiol i deilwro anghenion y bobl ifanc yw Agor Drysau. Gwneir pob math o weithgareddau ar hyd a lled y Sir a thu hwnt. Mae Agor Drysau yn achredu pobl ifanc am eu gwaith drwy Agored Cymru ac ers dechrau'r cynllun yn Ebrill 2011, mae'r prosiect wedi llwyddo i gyflawni 232 o unedau i 92 o bobl ifanc. Mae'r ffigyrau hyn yn anhygoel o uchel o brosiect bach. Rhai o fodiwlau gwaith yw 'cadw tenantiaeth', 'coginio', 'cyllido' ac mae nifer o bobl ifanc wedi llwyddo i dderbyn achrediadau am eu gwaith 'mosaics', 'ffotograffiaeth', 'garddio', 'Theatr Fforwm' a mwy. Mae'r prosiect wedi bod yn un poblogaidd a llwyddiannus iawn. Mae gwasanaeth Cymodi wedi datblygu strwythur hynod o effeithiol ac mae'r swyddog yn gweithio'n agos gyda staff y cynlluniau i ddefnyddio egwyddorion cymodi a chyfiawnder adferol yn eu gwaith bob dydd gyda phobl ifanc. Mae gweithwyr prosiect hefyd wedi'u hyfforddi i ddarparu hyfforddiant Rheoli Dicter i ddisgyblion ysgolion uwchradd Gwynedd neu yn wir unrhyw un sydd yn dymuno prynu'r gwasanaeth.

Mae Pennaeth Gwasanaethau GISDA yn Gwnselydd cymwysedig ac yn gallu darparu sesiynau cwnsela i bobl ifanc bregus yn fewnol i ddefnyddwyr gwasanaeth GISDA.

Mae Agor Drysau wedi cydweithio gyda nifer o asiantaethau er budd y bobl ifanc a rhagwelir y bydd hyn yn parhau hyd at ddiwedd oes y prosiect ym mis Mawrth 2014.

Mae'r grant hwn yn dod i ben diwedd Mawrth 2014. Bydd hyn yn golled eithriadol os na fyddem yn gallu denu arian i wneud prosiect tebyg. Mae'r prosiect yn ychwanegu gwerth mawr at ein cynlluniau Cefnogi Pobl. Cymeradwywyd cais cychwynnol ar gyfer prosiect newydd o'r enw 'Mentro Mlaen' ac fe aethpwyd ati i gwblhau cais manwl llawn. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cael gwybod os y buom yn llwyddiannus gyda'r cais hwnnw ym mis Ionawr 2014. Gwerth y prosiect hwnnw os yn llwyddiannus fydd £500,000.

### **Grant Gwasanaethau Ieuenctid**

Buom yn ffodus o dderbyn grant o £20,000 ym mis Ebrill 2013 gan Gyngor Gwynedd ar gyfer ariannu Swyddog Gweithgareddau Awyr Agored. Mae'r prosiect yn un cyffrous ac mae'r swyddog yn achredu pobl ifanc am gwblhau gwahanol weithgareddau. Ymysg rhai o'r gweithgareddau mae cyfle i bobl ifanc chwarae pêl droed a chymryd rhan yn nhwrnament ( un ferch wedi'u dewis i gynrychioli Cymru gyda Street Football Wales ac yn mynd i Poland i chwarae pêl droed ym mis Awst 2013) mynd i'r gampfa, hwylio, beicio a mynydda.

### **Teuluoedd yn Gyntaf**

**Lot 1** (Barnardos (yn arwain), Cartref Bontnewydd, Cyfiawnder Ieuenctid, NYAS, Plas Pawb, Derwen a GISDA)

Rydym yn rhan gonsortia lot 1 Teuluoedd yn Gyntaf - rhaglen 4 blynedd hyd at 2016. Darpariaeth GISDA o fewn y consortia yw gwasanaeth cwnsela sirol 3 diwrnod y wythnos. Rydym yn hynod ffodus o fod yn rhan o'r prosiect hwn gan ei fod yn rhoi cyfle i ni gydweithio gydag eraill a chynnig gwasanaeth gwahanol nad oedd ar gael yng Ngwynedd yn y cyd-destun hwn yn y gorffennol. Gwerth y cytundeb hwn yw £27,500 y flwyddyn.

**Lot 2** (Cyngor ar Bopeth yn arwain, Barnardos, Gwynedd ni a GISDA)

Eto, rhan o gynllun Teuluoedd yn Gyntaf mae lot 2 yn darparu gwybodaeth a rhoi sgiliau am lythrennedd ariannol i deuluoedd Gwynedd. Rhan GISDA o fewn y cynllun yw darparu cefnogaeth 1:1 a darparu 5 cwrs Cadw Cownt yn flynyddol. Mae Cadw Cownt yn gwrs a luniwyd yn wreiddiol gan Barnardos. Fe fydd Barnardos yn parhau i ddarparu'r hyfforddiant yn Nwyfor a Meirionnydd ond bydd GISDA yn darparu'r gwasanaeth yn ardal Arfon. Gwerth y cytundeb yw £10,000 y flwyddyn dros 4 blynedd.

### **Cynghorydd Personol – grant Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cytundeb Lefel gwasanaeth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd yw'r prosiect hwn. Rydym yn derbyn £40,000 yn flynyddol. Clustnodir £11,000 tuag at gyflog y swyddog yma ac mae £29,000 yn gyfraniad tuag at gostau canolog GISDA gan ein bod yn darparu gwasanaethau sydd yn gyfrifoldeb statudol ar y cyngor - bwriad y cyllid canolog yw lleihau straen ar wasanaethau Cymdeithasol.

### **Rhieni Ifanc Ni**

Dechreuodd y prosiect cyffrous hwn yn Nhachwedd 2013. Derbyniom grant gan y Gronfa Loteri fawr am £857,000 dros 3 blynedd. Mae SNAP Cymru, Trais yn y Cartref De Gwynedd a Phrifysgol Bangor yn bartneriaid yn y prosiect. Roedd GISDA yn ffodus iawn o ddenu'r arian yma ac mae targedau clir wedi'u gosod felly bydd hi'n hanfodol bod y prosiect yn llwyddo ac yn gwneud gwahaniaeth a bod gwaith ymchwil y Brifysgol yn ein cynorthwyo i ddysgu a gwella ein hymarfer wrth i'r prosiect fynd ymlaen. Bydd GISDA yn cyflogi 7 o staff newydd ac fe fydd y cytundeb lefel gwasanaeth gwerth £69,000. Fe fydd SNAP Cymru yn derbyn £30,000 a'r Brifysgol yn derbyn £40,000.

### **Symud Ymlaen**

Ffurfiwyd consortia newydd ar gyfer ymgeisio am grant loteri Ar y Blaen a bu'r cais yn un llwyddiannus. Y 4 brif bartner yw SOVA Cymru, Construction youth, CBSA a LlamauUK yn arwain. Gwerth y prosiect hwn yw 3.3miliwn dros 2 flynedd a nod y prosiect yw gweithio gyda phobl ifanc 16 a 7 oed sydd naill ai wedi troseddu neu wedi bod yng Ngofal yr Awdurdod Lleol. Gwerth y grant mae GISDA yn ei dderbyn fel rhan o'r prosiect yw £130,000 dros 2 flynedd. Mae'r prosiect yn un cyffrous i GISDA gan mai dyma'r tro cyntaf i'r cwmni weithio ym Môn, Conwy a Dinbych. Dechreuodd y prosiect yn ffurfiol Hydref 1af 2013.

### **Mentrau Cymdeithasol**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2012-2013), gwelwyd 3 menter newydd yn GISDA.

✓ **Cinematic**

Sinema sydd yn cael ei chwythu fyny a gellir gweld ffilmiau, chwarae x box, gwylio gemau neu ymarfer corf ar DVD. Hyd yma mae'r offer wedi'u logi a'i defnyddio gan glybiau leuencid a gan ysgolion Gwynedd a Chonwy. Rydym yn gweld potensial enfawr i'r cynllun ac wedi ymgeisio am grant Cyfenter fel gall swyddog cyflogedig ddatblygu'r fenter ymhellach.

✓ **Iwrt (Yurt)**

Buom yn ffodus o dderbyn grant Youth in Action o 8,000Ewro yn ystod Haf 2013. Roedd yr arian yn talu costau teithio dau o Hwngari ag Estonia i ddod i ddysgu pobl ifanc ar sgiliau adeiladu iwrt a hefyd i dalu am yr holl ddeunyddiau oedd ei angen. Eto mae'r prosiect hwn wedi bod yn llwyddiannus a phoblogaidd iawn, mae nifer o bobl wedi bod yn holi am logi'r iwrt. Ar hyn o bryd nid oes gennym unman addas a allwn ei adael yn barhaol fel gallwn ei logi allan i wahanol ddigwyddiadau. Rydym wedi gwneud cais Cyfenter gan obeithio ehangu ar yr un iwrt ac arian i brynu llecyn addas i'w osod yn barhaol.

✓ **Stensiliau**

Cawsom grant o £2,000 gan Ymddiriedolaeth y Tywysog i brynu offer i gynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu lluniau wedi'u wneud o stensilau a thaflunydd. Mae'r gwaith celf sydd wedi'u cwblhau gan bob ifanc yn anhygoel o dda ac o safon uchel iawn. Rydym yn gobeithio bydd eu gwaith ar gael i'w arddangos yng nghyfarfod blynyddol 2013.

### **'Caffi Ni' – Rhaglen People's Millions ITV**

Buom yn ffodus o ennill £50,000 mewn rhaglen teledu ar ddiwedd mis Tachwedd 2013. Ein bwriad fydd agor caffi yng Nghaernarfon, rhywle y gall pobl ifanc ddod i gymdeithasu, i fod yn gynnes a rhywle iddynt gael y cyfle i ddysgu sgiliau newydd. Mae'n parhau i fod yn fuan ar hyn o bryd o safbwynt cadarnhau lleoliad a threfniadau pellach. Rhagwelwn y bydd y caffi yn agor ym mis Mehefin 2014.

## **6.0 Polisiâu**

Cafwyd sêl bendith gan y Bwrdd Rheoli yn dilyn ein hadolygiad o holl bolisiau GISDA ym mis Medi 2012.

Bwriedir adolygu pob polisi bob 3 blynedd oni bai bod angen gwneud cyn hynny oherwydd unrhyw newid. Eithriad i hyn fydd polisiau amddiffyn plant ac iechyd a diogelwch gan gynnwys tân; bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

### **6.1 Dangosyddion Perfformiad**

Rydym yn adrodd ar ddangosyddion yn chwarterol. Defnyddir y dangosyddion hyn ar gyfer ein defnydd ein hunain i fesur ansawdd, i fonitro datblygiad y gwasanaeth ond mae'r adroddiad hefyd yn cael ei anfon at ein comisiynwyr. Bydd Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Loteri Genedlaethol yn cael copi yn chwarterol. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei graffu bob 4 mis gan Fwrdd rheoli GISDA.

Prif bwrpas y dangosyddion yw er mwyn i ni ddadansoddi ac adnabod patrymau fel ei fod yn ein galluogi i gynllunio gwasanaethau priodol o fewn yr ardal briodol yn ôl yr angen.

Ar lefel mwy personol i'r person ifanc mae gennym system o'r enw 'SEREN' i fesur llwyddiant / datblygiad y person ifanc wrth gael gwasanaeth gan GISDA. Mae hefyd yn ffordd ddefnyddiol o feddwl am y canlyniad yn gyntaf a gosod targedau llai er mwyn gallu eu cyrraedd.

Datblygwyd system casglu dangosyddion newydd ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol 2013-2014, mae'n ffordd syml i reolwyr gadw cofnod o'u hystadegau ond mae'r system hefyd yn nodi beth yw'r risgiau os nad yw'r targedau yn cael eu cwrdd. Mae'n declyn arbennig o werthfawr a defnyddiol i'r Tîm Rheoli fedru monitro gwasanaethau.

## 6.2 Marchnata

Rydym yn marchnata GISDA mewn sawl ffordd ac mae pob aelod o staff yn chwarae rôl bwysig iawn yn hyn. Rydym wedi datblygu rhwydweithiau da a chysylltiadau arbennig gyda'r wasg yn lleol. Mae'r gwasanaeth estyn allan i'r gymuned wedi datblygu nifer o bartneriaid hefyd ac yn cael llwyddiannau newydd yn arbennig yn yr ysgolion lleol. Rhestrir isod rhai o'n ffyrdd o farchnata yn ystod 2012-2013

- Casglu arian a chodi ymwybyddiaeth mewn archfarchnadoedd
- Erthyglau a straeon yn y wasg
- Cyfweiliadau teledu a radio
- Rhaglen ddogfen ar y teledu
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn ysgolion
- Sesiynau codi ymwybyddiaeth i asiantaethau e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymwelwyr Iechyd, Capeli lleol a.y.b.
- Newyddlen chwarterol

- Gwefan
- Rhwydweithio a chydweithio gydag asiantaethau eraill
- Cyfryngau Cymdeithasol Facebook
- Twitter : Mae Twitter wedi ein galluogi i rannu ein gwaith yn genedlaethol ac mae elusennau mawr, enwogion, gwleidyddion a chomisiynwr wedi ail drydar ein gwaith fel bod cynulleidfa eang iawn yn dod i wybod am waith da GISDA

Ein bwriad yw adeiladu ar y gwaith uchod gan sicrhau bod enw da GISDA yn parhau yn lleol ac yn genedlaethol.

### 6.3 Delwedd a Gofal Cwsmer

Rydym yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu ein delwedd yn barhaus. Rydym yn credu bod canfyddiad pobl yn bwysig ac mai ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod y ffordd mae pobl yn ein gweld a meddwl am GISDA yn bwysig iawn. Ein cyfrifoldeb ni fel cwmni yw sicrhau ein bod yn llwyddo i wneud hyn. Rhai o'r pethau y byddem yn canolbwyntio arnynt fydd

- Ateb e-byst yn amserol
- Dychwelyd Dangosyddion Perfformiad ar amser bob tro
- Ymateb yn broffesiynol ac ar amser i'n comisiynwyr a'n partneriaid
- Monitro ansawdd, gofal cwsmer a gwefan etc ac yn cydnabod bod yr elfennau hyn i gyd yn ganolog i ddelwedd bositif i'r cwmni.
- Cywirdeb iaith yn nogfennau mewnol ac allanol
- Wrth ddatblygu Delwedd GISDA rydym yn awyddus i sicrhau nad ydym yn gwyro yn ormodol oddi wrth y ddelwedd bresennol oherwydd ein bod angen y cydbwysedd o fod yn broffesiynol ond sicrhau bod y neges mai elusen i bobl ifanc ydym.
- Ym mis Mawrth 2013, cyflwynwyd logo newydd. Defnyddiwyd syniadau disgyblion ysgolion lleol i'w greu. Roedd yr hen logo wedi bod yn logo'r cwmni ers 27 o flynyddoedd. O hynny fe brynom nifer o ddeunyddiau



marchnata gan gynnwys taflenni newydd. Roeddem o'r farn bod angen diweddarau ein logo.

- Crëwyd gwefan newydd ym mis Awst 2013 gan DDELWEDD. Gobeithir y bydd y wefan newydd yn cynorthwyo comisiynwyr a phartneriaid i ddeall ein prosiectau a'n ardal weithredu yn well. Byddem hefyd yn gwneud defnydd o Just Text Giving ac yn annog rhoddion gan y cyhoedd drwy ddulliau anfon neges destun. Rydym hefyd wedi cofrestru i dderbyn Gift Aid. Mae linc arbennig ar y wefan ar gyfer pobl ifanc. Mae'n hanfodol bod y wefan yn cael ei diweddarau o leiaf yn wythnosol gydag unrhyw newydd neu newid.
- Mae staff GISDA yn parchu eu cwsmeriaid ac yn deall mai cwsmer yw'r defnyddwyr gwasanaeth, comisiynwr ac unrhyw ymwelydd i'r swyddfa. Mae gan GISDA strategaeth sydd yn nodi sut i ateb ffôn, sut i groesawu ymwelwyr sut i ymateb i lythyrau a sut i barchu pob unigolyn.

## **7.0 Incwm GISDA 2013-2014.**

Cafodd GISDA doriad o 4% i'r brif ffynhonnell incwm sef o grant cefnogi pobl yn 2013-2014. Llwyddom i gwrdd gyda'r toriad hwnnw drwy beidio ag ail hysbysebu swydd Pennaeth Gwasanaeth. Mae dyfodol y grant hwnnw yn ansicr iawn. Er bod Cyngor Gwynedd yn cael toriad o 5% ym mis Ebrill 2014, maent wedi cytuno i roi 2% o doriad i GISDA oherwydd ein bod yn cyflwyno prosiect symud ymlaen newydd o fewn yr incwm presennol. Er bod hyn yn newyddion arbennig o dda i ni fel cwmni mae risg o gael toriad tebyg i 7% yn Ebrill 2015. Mae'r wasgfa ariannol yn anorfod am effeithio mudiadau bychain i gynnal a pharau i ddarparu gwasanaethau. Rydym wedi dod â chytundeb rhent un o'n swyddfeydd i ben er mwyn arbed arian ar ein costau canolog. Mae tîm rheoli'r cwmni yn craffu cyfrifon yn chwarterol ac yna fe rannir hyn mewn is banel cyllid ble mae Trysorydd y Bwrdd Rheoli yn bresennol. Pwrpas hyn yw adnabod patrymau gwariant er mwyn gallu gwneud newidiadau ac addasiadau wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Mae'r Pennaeth Cyllid yn defnyddio hyn i ragweld toriadau a phatrymau er mwyn gallu cynllunio a rheoli ein hincwm yn ofalus.

Mae risg pellach i 4 grant arall yr ydym yn ei dderbyn gyda pherygl ei fod yn dod i ben ar ddiwedd Mawrth 2014. Y grantiau yma yw grant atal digartrefedd (A180), Grant Gwasanaethau Ieuencid, Grant Gwasanaethau Cymdeithasol a grant loteri Agor Drysau. Rydym yn ymwybodol o hyn ers rhai misoedd ac felly yn ceisio dod o hyd i ffyrdd rhagweithiol o sicrhau'r effaith lleiaf bosibl i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i staff. Mae'n amhosibl peidio gorfod addasu / newid y ffordd rydym yn gweithio, mae angen dod o hyd i ddulliau gweithio sydd yn uchafu adnoddau mwy mwy bob dydd.

Serch y peryglon uchod, rydym wedi derbyn sawl newydd da yn ogystal. Rydym wedi derbyn grant o £857,000 gan Gronfa'r Loteri Fawr er mwyn ariannu prosiect ar gyfer rhieni ifanc 14 i 25 yng Ngwynedd. Bydd y prosiect yn rhedeg am 3 blynedd gan ddechrau Tachwedd 1af 2013. Bydd y prosiect yn ariannu 7 swydd newydd a chytundeb lefel gwasanaeth gyda 3 mudiad arall. Rydym hefyd wedi derbyn grant o £130,000 fel rhan o gonsortia ehangach gyda chyfanswm grant y consortia yn 3.3miliwm. Eto, prosiect wedi'i hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr yw Symud Ymlaen, prosiect ar gyfer creu cyfleoedd gwaith a chynyddu sgiliau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc a fu mewn gofal 16 i 17 neu a fu'n troseddu yw hwn. Rhan GISDA yn y prosiect fydd i ariannu 2 weithiwr prosiect llawn amser dros 2 flynedd i weithio dros Wynedd, Môn, Conwy a Dinbych. Dyma'r tro cyntaf ers sefydlu GISDA i'r cwmni weithio oddi allan i Wynedd felly rydym yn gweld y prosiect hwn yn gyfle da i agor drysau at gyfleoedd gydweithio pellach.

Cytunwyd yn ystod y flwyddyn hefyd i fod yn rhan o gonsortia Llefydd o'r Newydd Cymru gyda Chaer Las, Cyrenians, Cymorth Cymru, Cymdeithas Tai Cadwyn a Shelter Cymru. Bwriad y consortia yw cydweithio er lles defnyddwyr gwasanaeth digartrefedd a bregus i ddenu cyllid Ewropeaidd sydd wedi'i glustnodi ar gyfer ardaloedd cydgyfeiriant yng Nghymru. Bydd yr arian yn benodol ar gyfer datblygu gwaith, cyfleon, sgiliau a gwydnwch unigolion. Rydym yn gweld ein hunain fel grŵp o asiantaethau sydd yn arbenigo yn y gwaith yma ac felly mewn lle cryf i ddenu arian. Nid bwriad y 6 asiant yw ceisio am arian ar gyfer ein hasiantaethau ni ond yn hytrach i sicrhau'r arian i'r sector penodol ac yna bydd cyfleoedd i asiantaethau tebyg dendro

am arian gan y consortia i ddarparu'r gwasanaeth yn unigryw a lleol yn eu Sir eu hunain.

Yn yr un modd a'r consortia uchod rydym mewn consortia tebyg i gydweithio ar gyfleoedd a ddaw o grant Cefnogi Pobl. Mae'n annhebygol y byddwn yn gallu denu arian newydd ond byddwn o leiaf yn gallu cynnig gwasanaeth cyson, generic yn rhatach i'r comisiynwyr drwy gydweithio.

Fel y nodwyd uchod, un o'n prif bryderon yn ychwanegol i'r grant Cefnogi Pobl yw bod grant loteri Agor Drysu yn dod i ben diwedd mis Mawrth 2014. Mae'r prosiect wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus ac wedi gweithio'n dda ar y cyd yn cefnogi gwasanaethau a datblygiadau eraill GISDA. Mae'r prosiect bron yn hanfodol i'r cwmni os am wneud yr hyn ydym yn ei ddymuno dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn y broses o gwblhau cais loteri i gynnal prosiect tebyg i Agor Drysau ond gyda mwy o bwyslais ar gael 'gwaith'. Pe na fyddwn yn llwyddiannus bydd rhaid addasu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau.

### 7.1 Amlinellir isod ffynonellau incwm 2012-2013

Ffynhonnell	Swm £
Grant Cefnogi Pobl – Cyngor Gwynedd	689,000
Loteri Fawr	94,356
Cyngor Gwynedd Gwasanaethau Cymdeithasol	41,960
Cyngor Gwynedd Gwasanaeth Ieuenctid	10,000
Section 180	29,172
Incwm Rhent	160,000
Arall	3000
Cyfanswm	1,049.503

## 7.2 Cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig

Mae GISDA yn ffodus iawn o ran ei sefyllfa ariannol a thros y blynyddoedd wedi sicrhau cronfa iach iawn. Rydym am osgoi gwario'r arian hwn i gadw gwasanaethau sydd yn dod i ben barhau ac rydym yn derbyn bydd angen i ni newid ein blaenoriaethau. Gwnaethpwyd penderfyniad yn yr is banel cyllid ar y 15fed o Orffennaf 2013 i gadw £200,000 o'r gronfa ar gyfer cyfrannu tuag at brynu adeilad pan ddaw'r cyfle hwnnw. Bydd defnydd o'i fath o'r arian yn rhoi sicrwydd i'r cwmni gan nad oes gennym yr un swyddfa na man gweithio addas gyda phobl ifanc.

## 8.0 GISDA 2015 - Y Dyfodol

Wrth gwblhau'r cynllun hwn mae'r ansicrwydd ynglŷn â'n hincwm dros y blynyddoedd yn ei gwneud hi'n anodd cwblhau cynllun pendant. Fel y gwelwyd uchod y sefyllfa yw ein bod yn colli rhai ffynonellau arian ond wedi bod yn llwyddiannus o ddenu arian newydd yr un pryd. Er ein bod wedi denu bron i filiwn o arian newydd, nid yw hyn yn newid y ffaith bod angen dod o hyd i doriad o 2% sef £13,000 o'r grant Cefnogi Pobl erbyn Ebrill 1af 2014.

Bu'r Tîm Rheoli yn brysur yn ystod Tachwedd 2013 yn meddwl sut i lunio gwasanaethau i gyd fynd gyda'r galw i newid rhai pethau gan ein comisiynwyr a hefyd er mwyn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cwmni i fedru darparu gwasanaethau o safon i'r dyfodol.

Cyflwynwyd y newidiadau i 3 Rheolwr ac 1 Swyddog ac fe'u gwahoddwyd i ymgynghori. Roedd sicrwydd bod swydd i bawb ond gyda newid i'w cyfrifoldebau. Rhannwyd y newidiadau gyda chyfreithiwr GISDA a gydag Aelodau'r Bwrdd Rheoli Tachwedd 18fed yn ogystal. Yn dilyn ymgynghoriad llwyddiannus a chytundeb y staff i'r newidiadau, cyflwynwyd y newidiadau yn y Diwrnod Tim Tachwedd 29ain 2013. Bydd y strwythur staffio newydd a'r model o brosiectau newydd yn weithredol o Ebrill 1af 2014.

Rhaglen waith dros y ddwy flynedd nesaf

	Cyfrifoldeb Arwain	Amserlen
Y nod yw na fydd GISDA yn derbyn dim llai o incwm na 2012-2013 yn 2016-2017 ond yn derbyn bod angen ymchwilio am ffynhonnell eraill er mwyn cyrraedd y nod hwn.	Tîm Rheoli	Adolygu yn chwarterol
Rydym yn edrych i ddiweddarau ein cyfansoddiad yn y Cyfarfod blynyddol yn 2013 i sicrhau ei fod yn gyfredol a'n bod fel cwmni yn gweithredu'n gyfreithiol o fewn terfynau'r cyfansoddiad.	Prifweithredwr	Ebrill 2014
Mae staff GISDA yn deall bod newid o'n blaenau gyda'r grant Cefnogi Pobl. Parhau i sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth gyda staff wrth i'r tîm rheoli ddod i wybod am unrhyw fater pwysig a all eu heffeithio.	Tîm Rheoli	Yn barhaol
Parhau i gadw ein hymarfer da ac osgoi foidiau yn y prosiectau. Foidiau yw pan fo ystafell yn dod yn wag o fewn ein hosteli, petai 1 ystafell yn wag am 10% o'r flwyddyn neu fwy, rydym yn wynebu colli canran o'r grant felly mae'n bwysig ein bod yn cynllunio 'mlaen i wneud y defnydd gorau o'n heiddo h.y. parhau gyda'r ymarfer presennol.	Rheolwyr Prosiect	Yn barhaol
Rydym yn derbyn bod costau Rheoli a chanolog GISDA yn parhau i fod yn uchel a bod angen parhau i edrych am ffyrdd o leihau'r canran hwn. Pennaeth Cyllid yn cyflwyno cyfrifon yn chwarterol i'w graffu yn y tîm rheoli ac yna yn yr is banel gyllid.	Pennaeth Cyllid mewn cydweithrediad gyda'r Tîm Rheoli.	

<p>Datblygu gwasanaeth wedi'i deilwro ar gyfer grwpiau o bobl ifanc bregus sydd ag anghenion penodol arbenigol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✎ troseddwr sydd wedi bod mewn gofal,</li> <li>✎ trais yn y cartref i'r staff ar y Prosiect Rhieni ifanc ni</li> <li>✎ merched ifanc / rhieni ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl ac yn camddefnyddio alcohol / cyffuriau,</li> <li>✎ arbenigo yn y rhwystrau sydd yn wynebu pobl fregus i fod yn hunan cynhaliol a dod o hyd i waith</li> <li>✎ Darparu hyfforddiant / taflenni codi ymwybyddiaeth i gyflogwyr i'w cynorthwyo ar sut i gefnogi grwpiau bregus yn y byd gwaith</li> </ul>	<p>Pennaeth Gwasanaethau</p>	<p>Ebrill 2014- Mawrth 2015</p>
<p>Parhau i gadw'r arbenigedd mwy generig o fewn staff y cynlluniau – e.e. alcohol, cyffuriau, iechyd meddwl, rhieni ifanc, trais yn y cartref, gallu isel / anabledd dysgu.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaeth</p>	<p>Yn barhaol</p>
<p>Oherwydd canllawiau newydd cefnogi pobl a lleihad yn ein grant cyllid bydd GISDA yn ail strwythuro ac yn ail flaenoriaethu'r gwasanaeth i gyd fynd gyda'r angen hwn yn ystod 2013-2014.</p>	<p>Tîm Rheoli</p>	<p>Newid mewn lle erbyn Ebrill 1af 2014</p>
<p>Gyda llwyddiant Theatr Fforwm, mae pob math o</p>	<p>Rheolwr Agor</p>	

<p>bosibiliadau i ddatblygu adain theatrig a chelfyddydol o fewn GISDA. Gobeithiwn allu denu grant i sicrhau bod cyfle i bobl ifanc bregus fynegi eu teimladau drwy gelf os mai dyma maent yn dymuno – rhaid sicrhau bod opsiynau ar gael i bobl ifanc.</p>	<p>Drysau</p>	
<p>Parhau i adeiladu ar y gwaith yma :</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>✓ Cwnsela</li> <li>✓ Cymodi</li> <li>✓ Mentor Cyfoed</li> <li>✓ Cynghorydd Personol</li> <li>✓ Gwaith Rheoli Dicter</li> </ul> <p>Rydym yn gweld y gwasanaethau therapiwtig yma yn rhan annatod o wasanaeth angenrheidiol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion bregus. Mae'r gwasanaethau ychwanegol yma yn cynnig gwasanaeth arbennig sydd yn ychwanegol i wasanaeth gweithiwr allweddol.</p> <p>Fel nodwyd uchod hoffem ddarparu gwasanaethau canlynol dros y blynyddoedd nesaf fel prosiect fydd yn rhedeg ochr yn ochr gyda'n prosiectau presennol</p>	<p>Pennaeth Gwasanaeth</p>	<p>Ionawr 2014 - Ebrill 2014</p>

<p>Datblygu sgiliau dychwelyd i waith unigolion gan arbenigo mewn pobl ifanc / oedolion bregus e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>👏 sgiliau yn ymwneud â'u hyder, hunan werth, gweithio mewn tîm, prydlondeb,</li> <li>👏 Adnabod rhwystrau i waith a darparu pecyn cefnogaeth unigol wedi'i deilwro i helpu pobl ddod yn hyderus ar sut i ymgeisio am swyddi, sut i ofyn am ffurflenni cais, lle i'w cael, sgiliau cyfweld etc</li> <li>👏 Creu perthynas gyda chyflogwyr lleol a'u cefnogi</li> <li>👏 Creu perthynas well gyda'r canolfannau gwaith</li> </ul>	<p>Pennaeth Gwasanaethau</p>	<p>Awst 2014</p>
<p>Parhau i gydweithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd ac adeiladu ar y gwaith o ddarparu gwasanaeth i bobol ifanc a fu mewn gofal yr Awdurdod ac wedi gadael.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau</p>	<p>Yn barhaol</p>
<p>Erbyn diwedd 2017 y nod yw bod gan GISDA adeilad eu hunain yng Nghaernarfon o'n heiddo ni sydd yn bwrpasol fel nad oes angen 3 Swyddfa. Mae Cynllun busnes adeilad mwy penodol wedi'' gwblhau gyda rhaglen staffio dros y 3 blynedd nesaf o ran anghenion swyddfa. Er ein bod wedi adnabod adeilad addas ar ddechrau 2013 a gwneud gwaith archwilio, fe dynnwyd yr adeilad oddi ar y farchnad</p>	<p>Prifweithredwr</p>	



<p>felly rydym yn edrych i geisio adnabod man addas a fyddai'n cwrdd â'n hanghenion. Rydym wedi bod mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i geisio am grant tuag at adeilad ond ansicr iawn yw hyn ar hyn o bryd.</p> <p>Yn ddelfrydol fe hoffem ddenu digon o gymorth ariannol i'n caniatáu i adeiladu canolfan datblygu sgiliau i bobl ifanc a bod lle i staff gael eu lleoli ar yr un safle. Rydym yn dymuno sicrhau cynllun tymor hir a fydd yn cynnal gwasanaethau i bobl ifanc am amser i ddod.</p>		
<p>Datblygu ein cynllun o wirfoddolwyr 'Ffrindiau GISDA' ymhellach fel eu bod yn chwarae rôl fwy gweithredol fel gwirfoddolwyr.</p>	<p>Swyddog marchnata a busnes</p>	
<p>Datblygu ac adeiladu ar ein gwaith estyn allan i Gonwy a Dinbych petai cyfle tendro yn codi. Gydag adborth ac adolygiadau da yng Ngwynedd i ddarparu gwasanaeth o safon ac yn gwbl ddwyieithog, hoffem ledaenu hyn i ardaloedd eraill gan gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau newydd.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau, Prifweithredwr a Rheolwyr prosiectau</p>	
<p>Sicrhau bod pob rheolwr wedi cymhwyso ac wedi derbyn hyfforddiant.</p>	<p>Penaethiaid</p>	
<p>Datblygu sgiliau'r Tîm Rheoli i weithio yn y dull <i>RBA - Result Based Accountability / Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau</i></p>	<p>Penaethiaid</p>	
<p>Adolygu costau Darparwyr Allanol GISDA i gyd e.e. Costau Cyfreithiol, Tanwydd etc</p>	<p>Pennaeth Cyllid</p>	<p>Mawrth 2014</p>
<p>Datblygu ein gwasanaeth mewn 'pod' mewn ardaloedd lle nad oes gennym swyddfa e.e. Bangor, Pwllheli, Abermaw, Llandudno, Rhyl, Rhuthun a</p>	<p>Penaethiaid a Rheolwyr Prosiectau</p>	

Dinbych- hyn yn arbed d costau teithio ac yn wasanaeth gwell i'r bobl ifanc yn eu cymunedau.		
Adolygu a dadansoddi patrymau gwariant er mwyn adnabod arbedion posibl.	Penaethiaid a Rheolwyr	
Edrych ar ffyrdd o fuddsoddi arian wrth gefn i sicrhau bod yr arian cyfalaf yn tyfu. Buddsoddi mewn tŷ / adeilad yn opsiwn yn arbennig ar ôl yr hyn sydd wedi'u gyhoeddi gan y Banc yn Lloegr ar y cyfraddau llog isel ym mis Awst 2013. Does dim arwydd bod cyfraddau am godi am amser hir.	Pennaeth Cyllid	Mawrth 2014
Cytunwyd yn ystod y flwyddyn hefyd i fod yn rhan o gonsortia Llefydd o Newid Cymru gyda Chaer Las, Cyrenians, Cymorth Cymru, Cymdeithas Tai Cadwyn a Shelter Cymru. Bwriad y consortia yw cydweithio er lles defnyddwyr gwasanaeth digartffedd a bregus i ddenu cyllid Ewropeaidd sydd wedi'u glustnodi ar gyfer ardaloedd cydgyfeiriant yng Nghymru. Byddwn yn gobeithio gallu denu rhywfaint o arian o'r cynllun hwn ar gyfer y pwynt isod ynglŷn â chanolfan datblygu sgiliau / swyddfa newydd i GISDA.	Prifweithredwr i barhau i drafod a mynychu cyfarfodydd perthnasol.	2014-2015
Grant loteri yn dod i ben yn 2014- cais arall yn cael ei gyflwyno i'r loteri – enw'r cynllun newydd os yn llwyddiannus fydd 'Mentro Mlaen'	Pennaeth Gwasanaethau a Thîm Rheoli	Aros i glywed Chwefror 2014

<p>Ymgynghori gyda phobl ifanc ar unrhyw gynllun newydd – sicrhau bod hyn ar yr agenda ac yn ganolog i'n holl gynlluniau.</p>	<p>Swyddog Cyfeiriadau a Mentor Cyfoed dan arweiniad y Tîm Rheoli</p>	<p>2014-2016</p>
<p>Parhau i fynychu asiantaethau, digwyddiadau ac ysgolion</p>	<p>Swyddog Datblygu, Swyddog Cyfeiriadau a Mentor Cyfoed</p>	<p>Parhau</p>
<p>Cydweithio gyda RASA (Rape and Sexual Assault) i geisio ennyn grant i gyflogi cwnselydd llawn amser i weithio ar draws RASA a GISDA</p>	<p>Swyddogion RASA a phennaeth Gwasanaethau</p>	<p>Erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol 2014-2015</p>
<p>Cynghorydd Personol Parhau i ddarparu'r gwasanaeth tra mae'r cytundeb yn parhau (hyd at Fawrth 2014) ac adnabod ffordd sydd yn bodloni'r comisiynwyr o ddarparu gwasanaeth tebyg o 2014 ymlaen.</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau a Prifweithredwr</p>	<p>Yn parhau</p>
<p>Yn dilyn y pwynt bwled uchod- mae'n gynllun gennym i gael adeilad mwy pwrpasol cyn gynted â phosibl, yn ddelfrydol hoffem gael adeilad newydd wedi'u hadeiladu, yng nghanol tref Caernarfon ond os nad yw hyn yn bosibl rhaid efallai edrych ar rentu rhywle mwy addas</p>	<p>Prifweithredwr</p>	<p>Yn parhau</p>

<p>Datblygu strategaeth newydd sydd yn nodi safonau Gwasanaeth GISDA / systemau rheoli ansawdd</p>	<p>Prifweithredwr a'r Tîm Rheoli</p>	
<p>Mae'r Llywodraeth wedi lansio gwasanaeth newydd ym mis Mai 2012 er mwyn ymateb i'r broblem ddifrifol NEET sydd yng Nghymru ar hyn o bryd.</p>	<p>Prifweithredwr a'r Tîm Rheoli</p>	<p>Sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw gyfle i gael rhagor o adnoddau i ddatblygu'r prosiectau gyda phobl ifanc NEET.</p>
<p><b>Mentrau Cymdeithasol</b></p> <p>Rhaid manteisio ar unrhyw gyfle a ddaw i'r cwmni gall hyn agor ein drysau at gyfleoedd pan fydd Awdurdodau Lleol yn allanoli gwasanaethau</p> <p>Bod yn barod am hyn pan ddaw'r cyfle.</p>	<p>Tim Rheoli</p>	<p>Mynychu cyfarfodydd yn gyson</p>